PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Rheolwr Cymru Ifanc

## Pecyn Ymgeisio

[Swyddi | Children in Wales]

# Cyflwyniad

**Teitl y Swydd:** Rheolwr Cymru Ifanc

**Yn adrodd i'r:** Cyfarwyddwr Cyflawn

**Lleoliad:** Hybrid. Gweithio gartref neu yn y Swyddfa yng Nghaerdydd, ond bydd disgwyl treulio dau ddiwrnod y mis yn y swyddfa.

**Oriau Gwaith:** 35 awr yr wythnos

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n glir gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Diben y fanyleb person yw nodi, mor fanwl gywir â phosibl, y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn i ymgeiswyr fedru bodloni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais.** Os na wnewch hynny, bydd gennych lawer llai o gyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw Dydd Llun 10 Chwefror 09:00**

**Byddwn ni'n cynnal cyfweliadau Dydd Mawrth 18 Chwefror**

Rydyn ni'n ymroddedig i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac yn hybu cyfle cyfartal. Seiliwyd hynny ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a byddwn yn glynu at y drefn honno ym mhob cam o'r broses recriwtio.

Rydyn ni'n ymroddedig i fod yn gorff gwrth-hiliol a chynyddu amrywiaeth trwy ddileu rhwystrau a chefnogi ein holl staff i gyflawni eu potensial. Rydyn ni'n ymroddedig i recriwtio pobl Ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd Ethnig, a phobl anabl, sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd yn Plant yng Nghymru.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bawb, heb ystyried oedran, priodas a phartneriaeth sifil (un rhyw a gwahanrywiol), namau neu gyflyrau iechyd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd.

Ein panel recriwtio fydd yn llunio'r rhestr fer ar gyfer cyfweld. Fyddan nhw ddim yn gweld eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gafwyd gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio heb ei datgelu.

I arbed costau, dim ond trwy e-bost y gallwn gydnabod ein bod wedi derbyn eich cais.

Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweliad, cewch wybod trwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni.

.

# Gwybodaeth Bellach

**Oriau Gwaith:** 35 awr yr wythnos

**Graddfa Gyflog:** £40,800 y flwyddyn

**Gwyliau Blynyddol:** 25 diwrnod y flwyddyn

**Dull Talu:** Telir cyflogau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebwyd gan yr aelod o staff ar y 15fed o bob mis

**Pensiwn:** Caiff cyflogeion Plant yng Nghymru eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn y Gweithle, ond gallwch ddewis optio allan

**Gweithle:** **Hybrid. Gweithio gartref neu yn y Swyddfa yng Nghaerdydd – SBARC, Maindy Road, Caerdydd,** CF24 4HQ,
gweithio ystwyth o'ch cartref neu yn ein swyddfa

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Rheolwr Cymru Ifanc |
| **Yn adrodd i'r:** | Cyfarwyddwr Cyflawn |
| **Lleoliad:** | Caerdydd – gweithio ystwyth o'ch cartref neu yn ein swyddfa |
| **Oriau Gwaith:** | 35 awr yr wythnos |

**Prif ddiben y rôl:**

Rheoli ac arwain Tîm Cymru Ifanc. Bod yn gyfrifol am gyflwyno a gweithredu rhaglen Cymru Ifanc a phrosiectau cyfranogi ychwanegol, a chydymffurfio â'r contract. Perthnasoedd: Rheolwr Llinell ar weithwyr cyfranogi ac uwch-swyddog Cymru Ifanc. Yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Cyflawni. Gweithio gyda chydweithwyr ar draws Cymru Ifanc, a'r Timau Partneriaethau a Pholisi.

Cyfrifoldeb dros Gyllid/Adnoddau – rheoli'r gyllideb a ddyrannwyd yn unol â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**

- Arwain tîm Cymru Ifanc i gyflwyno'r rhaglen waith a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â chontractau cyfranogi ychwanegol.
- Arwain y gwaith o ddatblygu partneriaethau cadarnhaol gydag ymarferwyr plant a phobl ifanc ledled Cymru er mwyn sicrhau ymgysylltiad â gweithgareddau Cymru Ifanc.
- Bod yn gyfrifol am waith ysgrifennu adroddiadau, recriwtio ac ymgysylltu er mwyn sicrhau bod Cymru Ifanc yn cynrychioli llais plant a phobl ifanc yng Nghymru.
- Goruchwylio a chydlynu'r holl setiau data perthnasol yn ôl y gofyn er mwyn monitro grantiau a chontractau.
- Cefnogi a rheoli perfformiad hyd at 5 aelod o staff Cymru Ifanc gan gynnwys Uwch-swyddog Cymru Ifanc
- Bod yn gyfrifol am waith asesu risg deinamig ac wedi'i gynllunio a'r protocolau diogelu sydd ar waith ar gyfer holl weithgareddau Cymru Ifanc.

Bod yn un o 3 arweinydd diogelu dynodedig ar gyfer y sefydliad (darperir hyfforddiant).

• Sicrhau bod holl amgylcheddau Cymru Ifanc – ar-lein, wyneb yn wyneb ac mewn digwyddiadau preswyl yn gorfforol ac yn seicolegol ddiogel a bod holl aelodau'r tîm, y gweithwyr proffesiynol allanol a'r rhanddeiliaid eraill yn cael gwybod am y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu a'r asesiadau risg.

• Datblygu dulliau o sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyfranogi a chyfrannu at ddatblygiad y gwaith, gan ganolbwyntio ar fod yn gynhwysol, diogelu a sicrhau'r effaith ystyrlon fwyaf ar y cyfranogwyr.

• Arwain y gwaith o wireddu targedau allbwn cyfathrebu Cymru Ifanc, gan gynnwys blogiau, erthyglau a chynnwys y cyfryngau cymdeithasol.

• Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl waith monitro, mesur, gwerthuso a rhoi adroddiadau mewn perthynas â rhaglen Cymru Ifanc.

• Darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfranogi'n effeithiol ym mhob portffolio a ddirprwywyd i Weinidogion yng Nghymru.

• Goruchwylio datblygiad a chyflwyniad ystod o weithgareddau a rhaglenni hyfforddi i blant a phobl ifanc mewn ysgolion, grwpiau ieuenctid a lleoliadau Cymru Ifanc, mewn partneriaeth â'r ysgolion a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi.

• Gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu cynigion ar gyfer cynlluniau cyllid grant perthnasol er mwyn hyrwyddo ymhellach ein gwaith cyfranogi gyda phlant a phobl ifanc.

• Arwain y gwaith o hyrwyddo rhaglen a brand Cymru Ifanc a sicrhau ei lle fel y prif raglen gyfranogi genedlaethol yng Nghymru.

• Cynorthwyo Plant yng Nghymru i gyflwyno hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.

• Cyflwyno amcanion a rhaglenni gwaith cytunedig yn unol â safonau Plant yng Nghymru

• Gwneud eich gwaith gweinyddol eich hun.

• Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill ar gais Tîm Arwain Uwch Plant yng Nghymru.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, gan y gallai Plant yng Nghymru ofyn bod deilydd y swydd yn cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill, o bryd i'w gilydd, wrth gyfrannu at gyflawni ei weithgareddau.

# Manyleb Bersonol

**Cyffredinol**

Mae Rheolwr Cymru Ifanc yn rôl allweddol o ran cyflwyno rhaglen waith Plant yng Nghymru i wreiddio Hawliau Plant mewn polisi ac ymarfer. Bydd angen i ddeilydd y swydd allu gweithio mewn modd strategol ac uchelgeisiol gan gyflawni gwaith rhagorol ym meysydd rheoli prosiectau a rheoli perfformiad staff er mwyn arwain rhaglen gyfranogi flaenllaw Plant yng Nghymru.

Bydd gofyn bod deilydd y swydd yn teithio i ddigwyddiadau a chyfarfodydd ledled Cymru.

**Gofynion Allweddol – Hanfodol**

1. Profiad sylweddol o reoli rhaglenni neu wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ieuenctid
2. Gwybodaeth ardderchog am ddulliau a thechnegau cyfranogi ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.
3. Gwybodaeth arbenigol a dealltwriaeth o'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.
4. Sgiliau rhagorol o ran meithrin a rheoli perthnasoedd a chydweithio.
5. Gwybodaeth ragorol am Hawliau Plant a'u cymhwyso yn ymarferol.
6. Gwybodaeth ragorol am gyd-destun cyfranogiad plant a phobl ifanc a hawliau plant yng Nghymru
7. Gwybodaeth ardderchog a dealltwriaeth ymarferol o'r amgylchedd gwleidyddol yng Nghymru, gan gynnwys y Senedd, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol.
8. Gwybodaeth ardderchog am Ddiogelu ar waith, gan gynnwys diogelu cyd-destunol a digidol ac ymrwymiad i ddysgu a datblygu'n barhaus yn y maes hwn.
9. Sgiliau cadarn o ran cyfathrebu ac ymwneud ag eraill (yn ysgrifenedig ac ar lafar) wrth weithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol.
10. Gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm, a gweithio ar y cyd â chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol.
11. Gallu i gynrychioli Plant yng Nghymru ymhlith cynulleidfaoedd allanol.
12. Sgiliau trefnu effeithiol.
13. Gallu i gynhyrchu ystod o adnoddau ysgrifenedig, gan gynnwys canllawiau arfer da a phecynnau cymorth ar gyfer cynulleidfaoedd allanol.
14. Gallu i gadw at derfynau amser ac i gael eich ysgogi gan dargedau.
15. Hanes llwyddiannus o gyflawni prosiectau/rhaglenni.
16. Gallu i ymgysylltu â phartneriaid/rhanddeiliaid a'u hysgogi.
17. Gallu i reoli llwyth gwaith cymhleth ac amrywiol.

# Gwybodaeth Gefndir

Children in Wales – Plant yng Nghymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol o aelodau ar gyfer unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Daw ein haelodau o'r sectorau cyhoeddus, elusennol/nid-er-elw ac annibynnol. Bydd ein gwaith wedi'i seilio ar ddull cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, ac i blant a phobl ifanc.

Byddwn ni'n gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd â'n haelodau trwy wneud y canlynol:

- Ymgyrchu dros fabwysiadu a gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn ar bob lefel o'r gymdeithas yng Nghymru.
- Herio anghydraddoldeb a hybu tegwch i'r holl blant a phobl ifanc ledled Cymru.
- Cyfuno a chwyddo llais ar y cyd dros newid trawsffurfiannol ar lefel polisi yng Nghymru.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn strwythurau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r llywodraeth yng Nghymru.
- Darparu llwyfan ar gyfer rhannu ymarfer arloesol ledled Cymru.
- Eiriol o blaid y sector(au) plant mewn meysydd blaenoriaeth.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r gweithlu plant proffesiynol ar draws sectorau.
- Ymgymryd â gwaith ymchwil a'i ledaenu ymhlith ein haelodau.

Mae Plant yng Nghymru yn cyflawni nifer o weithgareddau er mwyn cyrraedd y nodau hyn. Yn eu plith mae:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Gwaith ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel corff o aelodau rydym ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin, ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall yr aelodau fod yn rhai corfforaethol neu unigol, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol, neu grwpiau hunan-gymorth.

Ariannir ein gwaith trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru, rhoddwyr grantiau eraill, ac incwm a gynhyrchwn ein hunain.

Llywodraethir gwaith y sefydliad gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr

[Swyddi | Children in Wales]